# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION - CYFARFOD Tachwedd

Cadeirydd – Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **DYDDIAD** | | **Nos Fawrth – 10fed o Dachwedd, 2020** |
| **AMSER** | | **7 y.h. – Cyfarfod llawn y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | | **Y Ganolfan Llithfaen** |
| | | |
| **1.** | | **PRESENNOLDEB AC YMDDIHEURIADAU** |
| | | <u>**Presennol**</u> **-** Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, John Owen **(JO),** Griffith Jones **(GO),** Cyng. Aled Jones **(AJ),** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR).**<br><br><u>**Ymddiheuriadau**</u> **-** Ynyr Ellis **(YE)**, Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **2.** | | **HYSBYSIADAU'R CADEIRYDD** |
| | | Croesawodd SW pawb i'r cyfarfod |
| **3.** | | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | | Dim |
| **4.** | | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | | Ni dderbyniwyd sylwadau yn ystod y cyfarfod. |
| **5.** | | **COFNODION CYFARFOD HYDREF, 2020** |
| | | **Gofynnodd SP I'w chyweiriadau gael ei gofnodi yn y man cywir ar bwynt 8 ac 9 o gofnodion Medi a Hydref sef:**<br>*"Cwestiynodd SP a nodwyd y cofnodion blaenorol yn gywir ar y pwynt hwn gan ychwanegu ei bod hi a LJ wedi cytuno i ysgrifennu llythyr at awdurdodau priodol yn gofyn am arweiniad a chymorth i ddatrys y mater. "* |
| | *5.1* | <u>**Cyflwyno a mabwysiadu**</u><br>Cynigiodd GW gywirdeb cofnodion Hydref ac eiliodd GJ, cytunodd pawb. |
| | *5.2* | <u>**Materion yn codi**</u><br><br>1. <u>Ymholiadau am sefyllfa treth y Cyngor ar safle Plas Pistyll</u><br>Gofynnodd SW a oedd diweddariad pellach ar y mater atebodd AWJ y bydd yn debygol i fod yn fisoedd cyn cael diweddariad pellach.<br><br>2. <u>Y Fan Bost</u><br>Adroddodd LJ ei bod wedi sgwrsio ymhellach a swyddog y fan bost oedd wedi cadarnhau mae bore dydd Llyn a dydd Iau bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Esboniodd fod y gwasanaeth wedi gostwng ar ôl cau canolfannau cymunedol dros dro yn ystod y pandemig |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | | sydd wedi arwain at gynnydd mewn lleoliadau codi iddo. Gofynnodd a fyddai'r gwasanaeth yn cynyddu yn ystod y misoedd nesaf ond yn anffodus roedd wedi methu a chael cadarnhad. Trafodwyd pryder yr aelodau i wybodaeth bydd gostyngiad pellach i'r gwasanaeth gan fod y Post wedi colli contract pensiynau. Cytunwyd bydd rhaid bod yn wyliadwrus o'r sefyllfa.<br><br>3. <u>Biniau'r groesffordd angen eu gwagio</u><br>Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn eu hysbysebu bod y bin wedi gôr lenwi. Cadarnhaodd yr aelodau bod y gwaith wedi ei gyflawni erbyn hyn.<br><br>4. <u>Tir Bach Pistyll angen tocio'r clawdd</u><br>Y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt lythyru a'r perchnogion.<br><br>5. <u>Cornel Llithfaen Fawr gyferbyn a mynediad Carnguwch bach - y gwrychoedd yn beryg angen tocio</u><br>Roedd y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn iddynt lythyru a'r perchnogion. Adroddodd GJ ei fod wedi bod yn sgwrsio gyda'r perchennog ac wedi cytuno eu helpu i docio'r clawdd. Adroddodd bod y gwaith wedi ei gychwyn a bydd wedi ei gwblhau erbyn y penwythnos nesaf. Diolchodd yr Aelodau iddo . |
| **6.** | | **GÔR YRRU YN YR ARDAL** |
| | | a) Roedd cais wedi ei wneud gan yr aelodau am arwydd STOP a DIM FFORDD DRWADD ar groesffordd Llithfaen yn ystod y cyfarfod Hydref. Adroddodd y Clerc ei bod bellach wedi derbyn cadarnhad gan Reolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd ei fod wedi gyrru cyfarwyddiadau i un o'i swyddogion ymweld ar safle i wneud asesiad o'r gwaith fydd angen i'w lleoli, a chadarnhad bydd gwaith o'r fath fel arfer gydag amserlen o 4-6 wythnos.<br><br>a) Gan nad oedd yr heddlu na'r Cyngor Sir yn gallu cyfiawnhau costau asesiadau nac gwarchodaeth bellach o'r lon I Nant Gwrtheyrn o'r groesffordd yn dilyn canlyniadau asesiad y Cyngor Sir, rhannwyd gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Reolwr cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol (GCC) am gynlyn sydd ar hyn o bryd yn weithredol mewn 20 cymuned ac yn profi yn effeithiol iawn wrth leihau cyflymderau gyrwyr.<br>Esboniwyd mai'r bwriad yw addysgu gyrwyr na fydd goryrru yn cael ei oddef yn y gymuned honno a gofyn iddynt arafu wrth iddynt basio drwodd yn hytrach nag erlyn troseddwyr. Os bydd gyrwyr yn parhau i anwybyddu llythyrau rhybuddio gallant gael eu targedu gan yr Uned Plismona Ffyrdd neu'r Gwasanaeth Plismona Lleol.<br>Cytunwyd buasai SP yn hysbysebu am 3 o wirfoddolwyr yn Llythyr Llithfaen hefyd yn y siop i redeg y cynlyn yn Llithfaen. |
| **7.** | | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | | Dim |
| **8.** | | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | | Yn ystod cyfarfod Hydref awgrymodd AJ chwilio am farn gyfreithiol gan Un Llais Cymru ac unrhyw arweiniad a chymorth ar y camau cywir i ddatrys y broblem gyda gwersylla yn y maes parcio yn dop Nant Gwrtheyrn. |

*Llofnodwyd gan.............................................................................Dyddiad.....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | | Eglurodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â derbyn cadarnhad nad yw Un Llais Cymru yn cynnig cymorth cyfreithiol o'r fath oni bai am y canllawiau sydd wedi eu derbyn a'u rhannu yn barod gyda'r Cyngor. Awgrymodd Swyddog Un Llais Cymru gysylltu â Swyddog Monitorio Cyngor Gwynedd i ofyn am gymorth llythyru.<br>Aeth ymlaen i esbonio ei bod hefyd wedi cysylltu ag Yswiriant y Cyngor ond yn anffodus wedi methu cael cadarnhad o gymorth oni bai fod y Cyngor yn gwneud cais ffurfiol yn gyntaf.<br>Y Clerc i gysylltu â Swyddog Monitorio Cyngor Gwynedd. |
| **9.** | | **SBWRIEL YN Y MAES PARCIO A THOP Y NANT** |
| | | Cynigwyd mewn cyfarfod blaenorol gwared â'r biniau yn gyfan gwbl ond nid oedd y gwaith wedi ei gyflawni hyd yn hyn.<br>Wedi trafod canlyniadau o hyn ymhellach penderfynwyd gadael y bin am y tro i weld os fydd y broblem yn gwella wedi datrys problem gwersylla. |
| **10.** | | **BINIAU BAW CI** |
| | | Rhannwyd prisiau binnau 50lts a 25lts gyda'r aelodau.<br>Cynigiodd SP archebu 2 fin 25lts. Eiliodd LJ a chytunodd pawb. GWJ wedi cynnig o flaen llaw i'w gosod.<br>Y Clerc i drefnu. |
| **11.** | | **Y GANOLFAN** |
| | | Rhannwyd copïau o'r Les eto ac esboniodd y Clerc bod cais gan Gyfreithwyr y Cyngor Sir wedi gofyn i'r Cyngor Gymuned gadarnhau lleoliad y llinell las sydd yn dangos ffiniau'r Ganolfan.<br>Gan fod hon yn ddogfen gyfreithiol nid oedd yr aelodau yn hapus ei amlinellu. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu yn nol yn gofyn iddynt gadarnhau'r ffiniau drwy'r Land Registry. Cadarnhawyd yr aelodau bod gweddill y ddogfen yn gywir. |
| **12.** | | **MATERION LLEOL** |
| | | Dim |
| **13.** | | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | ***13.1*** | **Ymgynghori - Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – dim sylwadau |
| | ***13.2*** | **Ymgynghoriad ar Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – dim sylwadau |
| | ***13.3*** | **Cod ymarfer (dwy haen) ar faterion y gweithlu**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – dim sylwadau |
| | ***13.4*** | **Ymgynghoriad cyhoeddus Canllawiau Cynllunio - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid - Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw - Gofynnodd SP os oedd angen i'r Cyngor Cymuned ymateb - Wedi iddo esbonio'r broses cynllunio awgrymodd yr Aelod Lleol i'r aelodau ymateb fel unigolion. |

*Llofnodwyd gan.............................................................................................Dyddiad.......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | ***13.5*** | **Cyhoeddiadau Polisi: Prynu Gorfodol**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – dim sylwadau |
| | ***13.6*** | **Gwybodaeth gan Feddygfa Rhydbach - Botwnnog**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – Cynigiodd SP ysgrifennu yn nol yn eu hysbysebu o siomedigaeth cynnwys y llythyr. |
| | ***13.7*** | **Newyddlen Etholiadol LlC - Hydref**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – dim sylwadau |
| | ***13.8*** | **Bwletin Newyddion Un Llais Cymru**<br>Wedi eu rhannu o flaen llaw – dim sylwadau |
| **14.** | | **Cyllid** |
| | ***14.1*** | **<u>Cyfrifon 2020/21</u>**<br><br>Rhannwyd y cyfrifon o flaen llaw, nododd AWJ bod gwahaniaeth o £35 rhwng y Llyfr arian a'r cysoniad - Esboniodd y Clerc bod diffyg technegol wedi digwydd cyn iddi ychwanegu un taliad. Bydd y Clerc wedi ei addasu erbyn y Cyfarfod nesaf.<br>Cynigiodd JO gywirdeb i weddill y Cyfrifon ac eiliodd LJ |
| | ***14.2*** | **<u>Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf</u>** |

| **<u>Cyfrif Cyfredol</u>** | | |
|---|---|---|
| Taliadau - | £76.80 | Argraffdy Eryri |
| | £160.00 | Cyflog y Clerc |
| | £28.75 | Treuliau'r Clerc |
| **Balans 31 Hydref 2020** | | **£9,488.87** |

| **<u>Cyfrif Cadw</u>** | |
|---|---|
| Derbyniadau - | 0.00 |
| **Balans 6 Tachwedd 2020 -** | **£2,660.59** |

***14.3*** **<u>Taliadau a gymeradwywyd yn y Cyfarfod</u>**

| | |
|---|---|
| £168.00 | Archwilwyr Mewnol Cyngor Gwynedd |
| £160.00 | Cyflog y Clerc |
| £19.90 | Treuliau'r Clerc |

**Derbyniwyd cais gan LJ i'r Cyngor gysidro cymhorthdal i Lythyr Llithfaen tuag at argraffu gan fod y baich yn disgyn ar SP - cytunodd yr aelodau yn unfrydol gan ei fod yn Wasanaeth gwerthfawr i bawb yn y gymuned.**

| | | |
|---|---|---|
| **15.** | | **Trefniadau a dyddiad y Cyfarfod nesaf** |
| | | 8fed o Dachwedd 2020 |

*Llofnodwyd gan............................................................................................Dyddiad......................................................*